**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **DYDDIAD:** | **9 Mawrth 2023** |
| **LLEOLIAD:** | O bell drwy Gynhadledd Fideo |
| **TEITL:** | Adroddiadau a Diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaeth |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y cynnydd o ran astudiaethau y mae Archwilio Cymru wedi ymgymryd â nhw neu yn ymgymryd â nhw |
| **Er:** | Penderfyniad |

**Cyflwyniad**
Mae'r Adroddiad hwn yn nodi Adroddiadau a Diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaeth ac mae iddo dair rhan
a) *Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio*
b) *Unrhyw waith lleol ar risgiau a gyflwynwyd/a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio*
c) *Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru*

**Y Sefyllfa Bresennol:**
**a) Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

- Archwilio Cymru – Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ceredigion (**Atodiad 1**)
- Archwilio Cymru – Crynodeb Archwilio Blynyddol Ceredigion 2022 (**Atodiad 2**)

**b) Unrhyw waith lleol ar risgiau a gyflwynwyd/a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

- Archwilio Cymru – Diweddariad ar Gynnydd Asesu Sicrwydd a Risg – Lleihau Carbon (**Atodiad 3**)
- Archwilio Cymru - Briff y Prosiect – Pennu Amcanion Llesiant yng Nghyngor Sir Ceredigion (**Atodiad 4**)
- Archwilio Cymru - Cwestiynau allweddol a'r hyn rydyn ni'n chwilio amdano – Gosod amcanion llesiant (**Atodiad 5**)

**c) Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru**

| | |
|---|---|
| **ARGYMHELLIAD:** | Rhoi ystyriaeth i adroddiadau a diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaeth. |
| **Rheswm dros yr Argymhelliad:** | Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am adroddiadau, cynigion a'r gwaith yr ymgymerir ag ef. |
| **Atodiadau:** | **Atodiad 1 -** Archwilio Cymru – Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ceredigion<br><br>**Atodiad 2** - Archwilio Cymru – Crynodeb Archwilio Blynyddol Ceredigion 2022<br><br>**Atodiad 3** - Archwilio Cymru – Diweddariad ar Gynnydd Asesu Sicrwydd a Risg – Lleihau Carbon<br><br>**Atodiad 4** - Archwilio Cymru - Briff y Prosiect – Pennu Amcanion Llesiant yng Nghyngor Sir Ceredigion<br><br>**Atodiad 5 -** Archwilio Cymru - Cwestiynau allweddol a'r hyn rydyn ni'n chwilio amdano – Gosod amcanion llesiant |
| **Enw Cyswllt:** | Elin Prysor |
| **Teitl:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro) |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 28/02/2023 |

# Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ceredigion

## Diweddariad Chwarterol: 31 Rhagfyr 2022

## Crynodeb Archwilio Blynyddol

| Disgrifiad | Amserlen | Statws |
|---|---|---|
| **Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022** | Chwefror 2022 | Cyflawn<br>Cyngor Sir Ceredigion - Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2021 |

## Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad o Grantiau a Ffurflenni 2020-21 y Cyngor** | Archwilio hawliadau yn unol â thelerau ac amodau'r grantiau. | Yn unol â'r terfynau amser unigol ar gyfer pob cais am grant. | Gwaith archwilio wedi'i gwblhau – ym mis Ebrill 2022. |
| **Archwilio datganiad o gyfrifon 2021-22 y Cyngor** | I gadarnhau a yw'r datganiad o gyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg. | Barn Archwilio erbyn 30 Tachwedd 2022 | Gwaith archwilio wedi'i gwblhau – i'w ardystio erbyn diwedd mis Ionawr 2023. |

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad o Ffurflen 2021-22 ar gyfer Harbwr Ceredigion** | I gadarnhau bod y ffurflenni wedi'u cwblhau'n gywir. | Barn Archwilio erbyn 30 Tachwedd 2022 | Gwaith archwilio wedi'i gwblhau - i'w gymeradwyo erbyn diwedd mis Ionawr 2023. |
| **Archwiliad o Grantiau a Ffurflenni 2021-22 y Cyngor** | Archwilio hawliadau yn unol â thelerau ac amodau'r grantiau. | Yn unol â'r terfynau amser unigol ar gyfer pob cais am grant. | Gwaith archwilio i'w wneud rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Chwefror 2023. |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf LlCD)** | Byddwn yn ceisio integreiddio'r gwaith o gyflawni ein harchwiliadau LlCD o'r camau i gyflawni amcanion lles ynghyd â'n gwaith archwilio arall. Byddwn yn trafod hyn gyda'r Cyngor wrth i ni gwmpasu a chyflawni'r prosiectau archwilio a restrir yn y cynllun hwn. | Ym mynd rhagddo | Ym mynd rhagddo |
| **Archwiliad adrodd ar welliannau** | Archwilio cyflawni dyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad. | Tachwedd 2021 | Cyflawn |

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd as Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.<br>Yng Nghyngor Sir Ceredigion mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio ar:<br>• Sefyllfa ariannol<br>• Trefniadau hunanasesu<br>• Cynllunio adferiad<br>• Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)<br>• Cynlluniau i leihau carbon<br>• Rheoli Perfformiad | Wedi'i gwblhau | Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), trefniadau Hunanasesu, Rheoli Perfformiad a gwaith Chynllunio Adfer a gyhoeddwyd eisoes yn y Llythyr hwn (Mai 2022)<br><br>Cyhoeddi crynodeb o'r Cynlluniau Lleihau Carbon<br><br>Cyhoeddi Adroddiad ar y Sefyllfa Ariannol |

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Llamu Ymlaen – Archwilio'r blociau adeiladu ar gyfer dyfodol cynaliadwy** | Wrth i'r byd fynd yn ei flaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol. | Wedi'i gwblhau | Adroddiadau wedi'u cwblhau a'u cyhoeddi (Gorffennaf 2022):<br><br>Rheoli Asedau Strategol<br><br>Rheoli'r Gweithlu Strategol |

| Gwaith archwilio perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd as Asesu Risg** | Prosiect i ganfod lefel sicrwydd archwilio a/neu lle bo angen gwaith archwilio ychwanegol yn ystod y blynyddoedd i'w dod o ran y risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.<br>Mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio'n benodol ar:<br>• Sefyllfa ariannol<br>• Rheoli rhaglenni cyfalaf<br>• Llywodraethu<br>• Defnyddio gwybodaeth am berfformiad – gan ganolbwyntio ar adborth a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau<br>• Pennu amcanion llesiant | Ym mynd rhagddo | Ym mynd rhagddo |

| Gwaith archwilio perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad Thematig – Gofal heb ei Gynllunio** | Adolygiad traws-sector sy'n canolbwyntio ar lif cleifion allan o'r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i ymdrin â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i fod o gymorth i ryddhau cleifion, yn ogystal ag atal mynd i mewn i'r ysbyty. Bydd y gwaith yn ystyried hefyd pa gamau a gymerir i ddarparu datrysiadau tymor canol i hir. | Awst 2022 – Chwefror 2023 | Gwaith maes |
| **Adolygiad thematig – Digidol** | Mae'r prosiect hwn yn cael ei gwmpasu ac mae manylion ychwanegol am bwyslais penodol yr adolygiad i'w cadarnhau. | I'w gadarnhau. | Cwmpasu |
| **Gwaith risg lleol: Adolygiad cynllunio i ddilyn** | Dilyn cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn ein hadolygiad Cynllunio a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021. Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio – Cyngor Sir Ceredigion | Ym mynd rhagddo | Gwaith maes |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol sydd wedi eu cynllunio/ar y gweill

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|---|---|
| **Meithrin Cydnerthedd Cymdeithasol a Hunanddibyniaeth** | Adolygu sut y gall awdurdodau lleol feithrin mwy o gydnerthedd mewn cymunedau | Hydref 2021 – Hydref 2022 | Clirio – cyhoeddi Ionawr 2023 | Do – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor. |
| **Diogelwch adeiladau** | Adolygiad o ba mor dda y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau dros ddiogelwch adeiladau | Medi 2022 – Awst 2023 | Casglu Tystiolaeth – gwaith maes wedi’i gynllunio ar gyfer Ionawr – Mawrth 2023 | Do – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor |
| **Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy– Adfywio Tir Llwyd** | Adolygu sut mae awdurdodau lleol yn hybu ac yn galluogi gwell defnydd o anheddau annomestig gwag a safleoedd tir llwyd | Hydref 2022 – Medi 2023 | Casglu tystiolaeth – gwaith maes yn cael ei sefydlu ar gyfer Ionawr – Mawrth 2023 | Do – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor |
| **Llywodraethu awdurdodau diben arbennig – Parciau Cenedlaethol** | Adolygu systemau ac effeithiolrwydd llywodraethu | Tachwedd 2022 – Medi 2023 | Cynllunio | Naddo |

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ceredigion |
|---|---|---|---|---|
| **Cyd-bwyllgorau Corfforedig** | Asesu cynnydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth ddatblygu eu trefniadau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol a nod Llywodraeth Cymru o gryfhau cydweithio rhanbarthol. | Medi 2022 – Ionawr 2023 | Mae'r gwaith maes wedi'i gwblhau | Do – Rydym yn archwilio safbwynt y Cyngor trwy ein cyfarfodydd cyswllt arferol.<br>Mae'r gwaith maes yn cynnwys cyfweliadau gyda’r prif weithredwr, cyfarwyddwr cyllid a chadeirydd pob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig. |

## Estyn

| Gwaith arfaethedig Estyn 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol** | Cynhaliodd Estyn gynhadledd wella ôl-arolygu yn Nhorfaen ym mis Medi fel rhan o'n proses ddilynol ar gyfer awdurdod sy'n achosi pryder sylweddol. Cafodd Sir Benfro ei symud o'n categori dilynol yn dilyn ein hymweliad monitro ddechrau mis Hydref. Mae awdurdod lleol Wrecsam yn dal i fod mewn categori achosi pryder, ac aethom ati i gynnull cynhadledd cynnydd ym mis Rhagfyr i edrych yn benodol ar argymhelliad ar wella ysgolion. Rydym yn bwriadu ail-ymweld â Wrecsam yn nhymor yr haf. Gwnaethom archwilio Blaenau Gwent ym mis Rhagfyr ac byddwn yn arolygu Rhondda Cynon Taf ddechrau'r gwanwyn. | Arolygiad yn Rhondda Cynon Taf yn yr wythnos sy'n dechrau 23 Ionawr | Amh. |
| **Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) adolygiad thematig** | Cynnal gwaith maes ddiwedd tymor yr hydref/ddechrau tymor y gwanwyn ym mhob awdurdod lleol. | Cyhoeddi adroddiad ar 30 Mehefin | Amh. |

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith Cynlluniedig AGC 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Rhaglen 2022-23** | Yn dilyn ein cyfnod profi, rydym yn gwneud y diwygiadau terfynol i'n dull gweithredu a'n cod ymarfer. Bydd hyn yn arwain at god ymarfer diwygiedig. Byddwn yn ymgynghori ar hyn yn gynnar yn 2023 i'w weithredu o 01 Ebrill 2023. | Ebrill 2022 – Mawrth 2023 | Ar waith |
| **Gwaith ar y cyd** | Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid, gan rannu gwybodaeth a dealllusrwydd gan gynnwys cwblhau adolygiadau ar y cyd.<br><br>Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar y cyd ag AGIC ar adolygiad cenedlaethol o'r llwybr strôc ac archwiliadau CMHT. | Cyfredol | Ar waith |
| **Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021-22** | Yn dilyn cyhoeddi adroddiad 2020-21, mae cynllunio ar y gweill ar gyfer dyddiad cyhoeddi'r adroddiad nesaf sydd i'w gadarnhau. | Cyhoeddi i'w gadarnhau | Cyn-gyhoeddi |
| **Cyfarfod blynyddol gyda Chyfarwyddwyr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol** | Bydd AGC yn cyfarfod â'r holl Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol | Rhagfyr 2022 ac Ionawr 2023 | Cyflawni |

| Gwaith Cynlluniedig AGC 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad cenedlaethol o Gynllunio Gofal i blant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus** | Diben yr adolygiad<br><br>Darparu gwaith craffu allanol, sicrwydd a hyrwyddo gwelliant o ran ansawdd ymarfer mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion amlinelliad cyfraith cyhoeddus.<br><br>Ystyried i ba raddau mae ymarfer wedi symud ymlaen ers cyhoeddi 'Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal i blant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus' gan AGC a chyhoeddi Adroddiad gweithgor Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2021 gan gynnwys canllaw ar arfer gorau. | Medi 2022 – Gwanwyn 2023 | Cyflawni |
| **Trefniadau Cyd-arolygu Diogelu Plant (JICPA)** | Dull traws-arolygiaeth.  Meysydd i'w penderfynu. Byddwn yn cwblhau pedwar arolygiad ar y cyd aml-asiantaeth arall.<br><br>Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol tuag at ddiwedd 2023. | Hydref 2022 – Gwanwyn 2023 | Cynllunio |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd ers Ionawr 2022

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Darlun o Reoli Perygl Llifogydd | Rhagfyr 2022 |
| 'Cyfle wedi'i golli' – Mentrau Cymdeithasol | Rhagfyr 2022 |
| Offeryn Data Tlodi | Tachwedd 2022 |
| 'Amser am newid' – Tlodi yng Nghymru | Tachwedd 2022 |
| Dysgu o ymosodiadau seibr | Hydref 2022 (dosbarthwyd yn breifat i gyrff archwilio) |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol 2020-21 | Hydref 2022 |
| Cymorth busnes COVID-19 yn 2020-21 – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Hydref 2022 |
| Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth | Medi 2022 |
| Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio? | Medi 2022 |
| Llywodraeth Cymru – pennu amcanion llesiant | Medi 2022 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Cynllunio a rheoli’r gweithlu gan Lywodraeth Cymru | Medi 2022 |
| Offeryn Data Cyllid GIG Cymru – hyd at Fawrth 2022 | Awst 2022 |
| Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Net Zero Carbon erbyn 2030: Adroddiad Tystiolaeth | Awst 2022 |
| Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 | Gorffennaf 2022 |
| Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru | Gorffennaf 2022 |
| Cronfa Ymateb COVID-19 Trydydd Sector – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Gorffennaf 2022 |
| System Wybodaeth Gofal yn y Gymuned Cymru – diweddariad | Gorffennaf 2022 |
| Mynd i'r afael â'r Ôl-groniad Gofal Arfaethedig yng Nghymru – ac offeryn data amseroedd aros | Mai 2022 |
| Y Cwricwlwm newydd i Gymru | Mai 2022 |
| Gofal heb ei drefnu – offeryn data a sylwebaeth | Ebrill 2022 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion | Ebrill 2022 |
| Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol | Chwefror 2022 |
| Cydweithio rhwng y Gwasanaethau Brys (gan gynnwys offeryn data) | Ionawr 2022 |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill (gwaith ar y gweill/cynlluniedig)[1]

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Pryniant Llywodraeth Cymru o Fferm Gilestone – llythyr at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Ionawr 2023 |
| Llywodraethu ansawdd yn y GIG | Chwefror 2023 |
| Gwasanaethau orthopedig | Chwefror 2023 |
| Cynhwysiant digidol | Chwefror 2023 |
| Briffio data cynllunio gweithlu'r GIG | Mawrth 2023 |

[1] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i gyfathrebu â ni. Ers y diweddariad blaenorol rydym wedi datblygu gwaith cynllunio ar sawl pwnc newydd er bod cwmpas ac amserlen rhai o'r darnau hyn o waith i'w cadarnhau o hyd.

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| Gwneud y gorau o arian gan yr UE | Mai 2023 |
| Cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon – dilyniant | Gorffennaf 2023 |
| Tai fforddiadwy | I'w gadarnhau |
| Ymateb i ffoaduriaid o'r Wcráin | I'w gadarnhau |
| Teithio llesol | I'w gadarnhau |
| Gwasanaethau canser | I'w gadarnhau |

## Digwyddiadau ac adnoddau Cyfnewid Arfer Da

| Teitl | Dolen i'r adnodd |
|---|---|
| Mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru: ymateb i'r her – daeth y digwyddiad dysgu ar y cyd hwn â phobl ynghyd o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus i rannu syniadau, dysgu a gwybodaeth am sut y gall sefydliadau ymateb i'r heriau a achosir gan dlodi. Gwnaethon rannu enghreifftiau o ddulliau gweithredu gan sefydliadau yng Nghymru ac ar draws y DU. | Adnoddau ar fynd i'r afael â thlodi |

| Teitl | Dolen i’r adnodd |
|---|---|
| Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio? Nod y digwyddiad dysgu a rennir hwn yw cynorthwyo cyrff cyhoeddus i wella defnydd a chymhwyso Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb y tu hwnt i ymarfer cydymffurfio drwy ddod â phobl ynghyd o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus i rannu syniadau, dysgu a gwybodaeth. | Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio? Digwyddiad ar-lein: cofrestru |
| 'Cyfle a gollwyd': Mentrau Cymdeithasol: Yn dilyn ein digwyddiad Mynd i’r Afael â Thlodi yng Nghymru: ymateb i'r her a gynhaliwyd ym mis Hydref, byddwn yn cynnal digwyddiad dysgu ar y cyd arall ar ein gwaith thematig yn edrych ar fentrau cymdeithasol yn y flwyddyn newydd. Bydd y digwyddiad hwn yn dod â phobl ynghyd o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus i rannu syniadau, dysgu a gwybodaeth er mwyn lleihau'r heriau a achosir gan dlodi. | Bydd rhagor o fanylion ar gael ar ein tudalen digwyddiadau yn fuan. |

## Blogiau Diweddar Archwilio Cymru

| Teitl | Cyhoeddiad |
|---|---|
| Storm berffaith – yr argyfwng costau byw a cham-drin domestig | 21 Tachwedd 2022 |
| Mae mynd i’r afael â thlodi yn golygu mynd i’r afael â’r data ar dlodi | 11 Tachwedd 2022 |
| Costau byw a rhoi'r fidog i gadw | 21 Medi 2022 |

| Teitl | Cyhoeddiad |
|---|---|
| Mae pethau'n poethi i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd | 18 Awst 2022 |
| Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru | 15 Mehefin 2022 |
| Gofal Heb ei Drefnu yng Nghymru – System o dan bwysau gwirioneddol. | 21 Ebrill 2022 |
| Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | 18 Chwefror 2022 |
| Seibergadernid – blwyddyn ymlaen | 9 Chwefror 2022 |
| Helpu i adrodd y stori drwy gyfrwng rifau (Offeryn data cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol) | 3 Chwefror 2022 |
| Galwad am wybodaeth gliriach ynglŷn â gwariant ar newid yn yr hinsawdd | 2 Chwefror 2022 |
| Y gweithredoedd tu ôl i'r geiriau (adeiladu gwytnwch cymdeithasol a hunanddibyniaeth mewn dinasyddion a chymunedau) | 14 Ionawr 2022 |

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Sir Ceredigion

## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2022



Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion.
Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022. Mae ein crynodeb archwilio'n rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r Cyngor

### Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu



**Ffeithiau allweddol**

Mae gan y Cyngor 38 o gynghorwyr sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- Plaid Cymru 20
- Annibynnol 9
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru 7
- Gwlad 1
- Heb ei grwpio 1

Gwariodd y Cyngor £157.3 miliwn ar ddarparu gwasanaethau[1] yn ystod 2021-22[2].

[1] Rydym yn diffinio gwariant ar wasanaethau fel cost gwasanaethau a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn costau unrhyw wasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion.

[2] Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon 2021-22

| Ffeithiau allweddol |
| --- |
| O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2022, roedd gan y Cyngor £60.7 miliwn o gronfeydd ariannol wrth gefn defnyddiadwy[3]. Mae hyn yn cyfateb i 38.6% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau[4]. |
| Mae 2% o'r 46 o ardaloedd yng Ngheredigion yn rhai yr ystyrir eu bod ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru; dyma'r 20fed uchaf o'r 22 o gynghorau unedol yng Nghymru.[5] |
| Rhagamcanir y bydd poblogaeth Ceredigion yn gostwng 4% rhwng 2020 a 2040 o 71,900 i 69,000, gan gynnwys gostyngiad o 14% yn nifer y plant, gostyngiad o 12% yn nifer y boblogaeth o oedran gweithio a chynnydd o 21% yn nifer y bobl 65 oed a throsodd.[6] |

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Gwnaethom gwblhau gwaith yn ystod 2020-21 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Gwelliant parhaus**

  Yn ystod 2021-22, bu'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a wnaeth y Cyngor fodloni'r gofynion adroddiad perfformiad mewn perthynas â 2020-21.

- **Archwilio'r Cyfrifon**

  Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.

- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid iddo fod wedi'i argyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.

- **Yr egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

[3] Rydym yn diffinio cronfeydd ariannol wrth gefn defnyddiadwy fel cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw, lle nad yw'r diben wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Mae hyn yn golygu cyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau ysgolion. Nid yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf na grantiau cyfalaf anghymwysedig.

[4] Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon 2021-22

[5] Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is'. Ffynhonnell: StatsCymru

[6] Ffynhonnell: StatsCymru

# Yr hyn a nodwyd gennym

## Archwiliad o Gyfrifon 2021-22 Cyngor Sir Ceredigion



**I gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith cyrff rheoleiddio megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn cymryd canfyddiadau ein gwaith archwilio i ystyriaeth wrth asesu a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i sicrhau gwerth am arian. Caiff ein canfyddiadau a'n casgliadau eu crynhoi isod.**

Bob blwyddyn rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.

### Ar gyfer 2021-22:

- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod bod datganiadau ariannol y Cyngor yn gywir ac yn deg ar 30 Ionawr 2023, yn unol â'r terfyn amser statudol diwygiedig sef 31 Ionawr 2023.
- cafodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor ac ein gwybodaeth am y Cyngor.
- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio yn dda ar y cyfan.
- gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol y Cyngor a gododd o'n gwaith archwilio, a thynnwyd sylw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at y rhain yn ein Hadroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ym mis Ionawr 2023.
- yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol am archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae ganddo gyfrifoldeb hefyd am ardystio nifer o hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau. Ni nodwyd unrhyw broblemau arwyddocaol yn ein gwaith hyd yma.
- cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif a oedd yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon ar gyfer 2021-22 wedi cael ei gwblhau.

## Gwelliant parhaus

Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi bodloni ei ddyletswyddau sy'n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, fel y'i cadwyd gan orchymyn a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## Adolygiad asesu risg a sicrwydd

Rydym wedi adolygu'r trefniadau a roddir ar waith gan y Cyngor i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar yr agweddau canlynol ar drefniadau'r Cyngor:

- Cynllunio ar gyfer adfer
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
  - Trefniadau ar gyfer Hunanasesu ac Asesiadau gan Banel
  - Trefniadau ar gyfer Dyletswydd i Ymgynghori a Strategaeth Cyfranogiad
  - Trefniadau ar gyfer y newidiadau i Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio
  - Trefniadau ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig
  - Defnyddio Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol
- Rheoli Perfformiad
- Cynlluniau lleihau carbon
- Sefyllfa ariannol

Nodir ein canfyddiadau o'r gwaith hwn yn ein:

- Asesiad Sicrwydd a Risg – Diweddariad ar y Cynnydd (Gorffennaf 2022)
- Diweddariad ar Gynnydd Asesu Sicrwydd a Risg – Lleihau Carbon (Tachwedd 2022)
- Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ar y Sefyllfa Ariannol o ran Sicrwydd ac Asesu Risg (Ionawr 2023)

## Adolygiadau Thematig Llamu Ymlaen – Rheoli Asedau (Gorffennaf 2022) a Rheoli'r Gweithlu (Gorffennaf 2022)

Yn ystod 2021-22, gwnaethom archwilio sut mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y gwasanaethau a ddarperir. Roedd ein gwaith yn canolbwyntio ar y ffordd roedd y Cyngor yn rheoli ei asedau a'i weithlu yn strategol.

- yn ein hadroddiad ar reoli asedau, nodwyd gennym fod dull strategol y Cyngor o reoli ei asedau'n gwella a bod y pandemig wedi cyflymu cynlluniau ar gyfer y modd y bydd yn defnyddio'i asedau allweddol i gyflawni ei flaenoriaethau. Mae'n cydnabod bod meysydd lle gallai ei ddull gael ei gryfhau.
- yn ein hadroddiad ar reoli'r gweithlu, nodwyd gennym fod gan y Cyngor ddealltwriaeth glir am y modd y bydd angen i'r gweithlu esblygu i gyflawni ei flaenoriaethau, a gyflymwyd yn rhannol gan y pandemig, ac mae'n ymwybodol ble y mae angen iddo gryfhau ei drefniadau ac mae'n cymryd camau i reoli'r risgiau cysylltiedig.

## Arolygiaethau eraill

Rydym yn ystyried canfyddiadau Archwiliadau Sicrwydd a gwblhawyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac adroddiadau Estyn, yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb iddynt. Fodd bynnag, nid yw AGC nac Estyn wedi cyhoeddi unrhyw adroddiadau yn ymwneud â Chyngor Sir Ceredigion ers ein Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf ym mis Chwefror 2022.

## Astudiaethau llywodraeth leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, bob blwyddyn rydym hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol:

## Cydweithio rhwng y Gwasanaethau Brys (Ionawr 2022)

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio a yw'r gwasanaethau brys yng Nghymru yn cydweithio'n fwy agos i wneud defnydd gwell o adnoddau. Nid yw cydweithio ar draws y gwasanaethau brys i wneud y defnydd gorau o adnoddau'n gysyniad newydd. Mae gwasanaethau brys wedi bod yn cydweithio'n agos i ddarparu gwasanaeth gwell ar gyfer y cyhoedd am flynyddoedd lawer. Mae mentrau partneriaeth arloesol wedi arbed arian, wedi lleihau amseroedd ymateb lleol ac wedi cyfrannu at ddiogelu'r cyhoedd. Er gwaethaf hyn, ceir disgwyliadau cynyddol ym mholisi'r llywodraeth ac mewn deddfwriaeth bod angen i gydweithio ddigwydd yn ddyfnach ac yn gyflymach i sicrhau bod gwasanaethau rheng-flaen yn gallu ymateb i'r heriau sy'n wynebu Cymru yn yr 21ain ganrif. Ein casgliad ar y cyfan yw bod cydweithio rhwng gwasanaethau brys golau glas yn tyfu'n raddol ond bod angen newid sylweddol mewn gweithgarwch i gynyddu'r effaith i'r eithaf a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

## Taliadau Uniongyrchol (Ebrill 2022)

Mae Taliadau Uniongyrchol yn ddewis yn lle gofal neu gymorth a drefnir gan yr awdurdod lleol, a gallant helpu i ddiwallu anghenion unigolyn neu ofalwr. Nod Taliadau Uniongyrchol yw rhoi mwy o ddewis, mwy o hyblygrwydd a mwy o reolaeth i bobl dros y cymorth y maent yn ei gael. Roedd ein hadroddiad yn ystyried sut y mae Taliadau Uniongyrchol yn helpu i gynnal llesiant pobl ac a ydynt yn gwella ansawdd bywyd pobl. Gwnaethom fwrw golwg ar y modd y mae awdurdodau lleol yn rheoli Taliadau Uniongyrchol ac yn annog pobl i'w defnyddio, ac a yw'r gwasanaethau hyn yn rhoi gwerth am arian. Nodwyd gennym fod Taliadau Uniongyrchol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, gyda'r bobl a ymatebodd i'r arolwg yn cydnabod eu bod yn eu helpu i aros yn annibynnol. Nodwyd gennym hefyd bod y gwaith o reoli a chefnogi pobl sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol yn amrywio'n eang, a bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael gwasanaethau o safon wahanol.

## 'Amser am Newid' – Tlodi yng Nghymru (Tachwedd 2022)

Nid ffenomen newydd mo Tlodi yng Nghymru ac mae mynd i'r afael â thlodi, yn enwedig tlodi plant, wedi bod yn flaenoriaeth hirsefydlog i Lywodraeth Cymru ac i gynghorau yng Nghymru. Mae'r argyfwng costau byw presennol yn effeithio ar ragor o bobl a bod teuluoedd sydd wedi llwyddo i fyw'n gyfforddus mewn tlodi am y tro cyntaf. Mae nifer o'r ysgogiadau i leddfu tlodi y tu hwnt i reolaeth Cymru. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Tlodi Plant yn 2011,

ond mae hon yn hen yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw sydd ohoni, ac fe wnaed i ffwrdd â'r targed i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae cynghorau a phartneriaid yn blaenoriaethu gwaith ar dlodi, ond mae'r cymysgedd o ddulliau a thirwedd partneriaethau sy'n gymhleth yn golygu bod uchelgeisiau, ffocws, camau gweithredu a blaenoriaethau'n amrywio'n fawr. Mae Llywodraeth Cymru'n trefnu bod cyllid refeniw sylweddol ar gael ond, oherwydd cymhlethdod a natur y materion, nid yw cyfanswm lefel y gwariant yn hysbys, ac ni ŵyr yr un cyngor beth yw maint llawn ei wariant ar fynd i'r afael â thlodi a'i leddfu. Mae pob cyngor yn ddibynnol ar grantiau ond mae natur fyrdymor rhaglenni grant, gweinyddiaeth rhy gymhleth, gwendidau mewn canllawiau a chyfyngiadau grantiau, ac anawsterau gwario arian yn golygu nad yw cyllid yn cael yr effaith y gallai ei chael. Mae cynghorau'n ei chael hi'n anodd cyflawni gwaith ataliol oherwydd maint enfawr y galw o blith pobl mewn argyfwng.

## 'Cyfle wedi'i Golli' – Mentrau Cymdeithasol (Rhagfyr 2022)

Mae Mentrau Cymdeithasol yn eistedd rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Maent yn cymhwyso strategaethau masnachol i gael y gwelliannau mwyaf posibl mewn llesiant ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol, yn aml ar gyfer grwpiau unigol mewn cymdeithas, cymunedau diffiniedig neu ardaloedd daearyddol. Gall mentrau cymdeithasol weithio ym mhob un o sectorau economi Cymru ac ym mhob rhan o'r wlad, ac maent yn fwyfwy amlwg yn neddfwriaeth Senedd Cymru. Er eu bod yn honni eu bod yn gwerthfawrogi Mentrau Cymdeithasol, ychydig o awdurdodau lleol sydd wedi mapio eu gweithgarwch ac nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau yn gwybod beth yw maint y ddarpariaeth yn eu hardal. Mae llai na thraean o awdurdodau lleol yn ystyried bod ganddynt gydberthynas ragweithiol a chefnogol â Mentrau Cymdeithasol ac nid oes gan yr un ohonynt strategaeth neu bolisi a neilltuwyd yn benodol sy'n egluro sut y maent yn bwriadu hyrwyddo a thyfu'r sector. O ganlyniad, nid yw'r awdurdodau lleol yn manteisio ar botensial Mentrau Cymdeithasol er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau a all wella ansawdd bywyd pobl. Mae trefniadau caffael a chomisiynu presennol yn aml rhwystro Mentrau Cymdeithasol rhag ymgysylltu, a hynny'n anfwriadol, gan eu bod yn fiwrocrataidd. Nid yw gwerth cymdeithasol – y gwerth ychwanegol y gall prosesau comisiynu ei ddwyn – yn un o'r cymhellion allweddol i lawer o awdurdodau lleol. Nodwyd gennym nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol yn effeithiol.

## 'Gyda'n gilydd fe allwn ni' – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau (Ionawr 2023)

Yn erbyn y sefyllfa hon sy'n gryn her, mae awdurdodau lleol yn dangos diddordeb cynyddol mewn hybu a thyfu cydnerthedd cymunedau; arfogi pobl i wneud mwy drostynt hwy eu hunain a bod yn llai dibynnol ar y wladwriaeth. Er bod 19 o'r 22 o awdurdodau lleol yn blaenoriaethu cydnerthedd cymunedau, yn rhy aml mae'r gwaith yn cael ei ddiffinio'n wael ac mae'r camau gweithredu sy'n tanategu cynlluniau'n rhy gul o ran eu ffocws. O ystyried yr heriau cymdeithasol, ariannol a demograffig sy'n wynebu Cymru, mae angen tyfu a chyflymu gweithgarwch. Mae capasiti, adnoddau a sgiliau yn brin, mae pobl yn wynebu dewisiadau anos ac yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r argyfwng costau byw. Mae gan gymunedau ac awdurdodau lleol eu hunain alluoedd gwahanol ac maent yn dechrau o leoedd gwahanol gyda'u heriau unigryw eu hunain i'w goresgyn. Rydym yn amlygu arferion ac enghreifftiau cadarnhaol sy'n dangos sut y mae eraill yn ceisio mynd i'r afael â her galluogi pobl i fod yn llai

dibynnol ar wasanaethau awdurdodau lleol, a sut y maent yn cefnogi ac yn hwyluso'r newid hwn.

## Gwaith sy'n mynd rhagddo ar gyfer 2022-23

Gwnaethom hefyd fwrw golwg ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Gallai'r rhain gael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r modd y mae'n defnyddio'i adnoddau.

Dyma'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar gyfer 2022-23:

- Sicrwydd ac asesu risg gan gynnwys ffocws ar y canlynol:
  - Sefyllfa ariannol
  - Rheoli'r rhaglen gyfalaf
  - Defnyddio gwybodaeth am berfformiad – gan ganolbwyntio ar adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau
  - Pennu amcanion llesiant
- Adolygiad thematig – gofal heb ei drefnu. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys y sectorau iechyd a llywodraeth leol
- Adolygiad thematig – digidol
- Cynllunio Adolygiadau Dilynol

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodwyd gan Ei Mawrhydi’r Frenhines. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyCCyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian mewn llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â’r gofynion sy’n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw’r enw ymbarél ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân â’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Eifion Evans
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Cyfeirnod:** 3229A2022
**Dyddiad cyhoeddi:** Tachwedd 2022

Annwyl Eifion

# Diweddariad ar Gynnydd Asesu Sicrwydd a Risg – Lleihau Carbon

Wedi ein cyfarfod gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn gynharach eleni, fe ddywedon ni y byddem yn rhoi adborth yn fwy ffurfiol ar rai agweddau penodol o'n gwaith asesu sicrwydd a risg yr ydym wedi ymgymryd â hwythau. Mae'r llythyr hwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd o ran trefniadau'r Cyngor ar gyfer lleihau carbon.

Cynhaliwyd y gwaith hwn fel rhan o'n prosiect Asesu Sicrwydd a Risg (ARA) 2021-22 i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol[1].

[1] Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Gall hefyd lywio astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004, a/neu archwiliad a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r adborth hwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd sy'n benodol o ran amser ar sicrwydd a risg ynghylch trefniadau'r Cyngor yn y maes hwn. Ar y cyfan, gwelsom:

- fod gan y Cyngor hanes hir o flaenoriaethu'r agenda rheoli carbon ac mae ganddo gefnogaeth gadarn oddi wrth aelodau a swyddogion ar gyfer yr agenda hon, ond nid yw ei gynllun gweithredu ar gyfer lleihau allyriadau carbon wedi'i gostio ac nid yw'n nodi'r cyllid sydd ei angen i gyflawni'r holl weithgarwch sydd ynddo.

## Cyd-destun

Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030, a oedd yn edrych ar gamau datgarboneiddio mewn 48 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys pob cyngor. Canfu'r adroddiad hwn ansicrwydd y bydd yr uchelgais ar y cyd ar gyfer sector cyhoeddus sero-net erbyn 2030 yn cael ei fodloni. Nododd ein gwaith rwystrau sylweddol, cyffredin i symud ymlaen, y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â hwythau ar y cyd i gyflawni'r uchelgais ar y cyd. Er bod cyrff cyhoeddus yn dangos ymrwymiad i leihau carbon, ein canfod oedd bod rhaid iddynt bellach gynyddu eu gweithgareddau'n sylweddol, cynyddu cydweithio a gosod datgarboneiddio wrth galon eu gweithrediadau a'u penderfyniadau beunyddiol.

Yn ein hadroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud y pum galwad canlynol am weithredu gan gyrff cyhoeddus:

- cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb ar y cyd drwy gydweithrediad effeithiol;
- egluro eich cyfeiriad strategol a chynyddu cyflymder y gweithrediad;
- mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch;
- nodi eich bylchau sgiliau a chynyddu eich capasiti; a
- gwella ansawdd data a gwaith monitro i gefnogi eich proses o wneud penderfyniadau.

Mae'r paragraffau canlynol yn nodi canfyddiadau ein gwaith archwilio lleol ar gynllun gweithredu datgarboneiddio'r Cyngor. Mae'r canfyddiadau hyn yng nghyd-destun ehangach adroddiad Gorffennaf 2022 yr Archwilydd Cyffredinol sy'n galw am gyflymu cyflymder ac arweiniad cryfach ledled Cymru o ran lleihau allyriadau carbon.

## Yr hyn yr edrychom arno

Gwnaethom asesiad o drefniadau'r Cyngor i ddatblygu a chyflawni eu Cynllun Gweithredu Argyfwng a Hinsawdd rhwng mis Mai ac Awst 2022. Casglom dystiolaeth drwy gyfweliadau, adolygiadau dogfennau a’r ffurflen Galwad am Dystiolaeth a ddychwelyd gan y Cyngor ar gyfer yr Adolygiad Datgarboneiddio Sylfaenol.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

Mae gan y Cyngor hanes hir o flaenoriaethu'r agenda rheoli carbon. Drafft y Cyngor o Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 fydd trydydd iteriad y ddogfen hon sy'n cynnwys lleihau allyriadau carbon fel rhan amlwg o flaenoriaethau'r Cyngor.

'Cyflawni Carbon Sero Net erbyn 2030' yw Cynllun Gweithredu'r Cyngor ar gyfer lleihau allyriadau carbon ac mae'n darparu naratif cynhwysfawr ar gyfer gweithgarwch strategol ar draws pob maes gwasanaeth ynghyd â phroses rheoli perfformiad ac adrodd. Ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor wedi costio'r cynllun yma. Heb gynllun gweithredu wedi’i gostio sy'n diffinio'n glir y gweithgaredd a'r cyllid sydd eu hangen i gyrraedd sero-net, ac sy'n cyd-fynd â’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, mae risg sylweddol na fydd y Cyngor yn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o allyriadau sero-net erbyn 2030.

Mae gan y Cyngor ystod o gynlluniau strategol a gweithredol sy'n dod â'u huchelgeisiau at ei gilydd i leihau allyriadau carbon mewn modd cydlynus. Mae Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 y Cyngor yn cynnwys blaenoriaeth gorfforaethol sef 'Hyrwyddo Gwydnwch Amgylcheddol a Chymunedol' sy'n cynnwys nifer o gamau gweithredu'n ymwneud â lleihau allyriadau carbon sydd wedi eu cyflawni. Mae Cynllun Gweithredu Sero Net 2021-22 i 2029-30 y Cyngor yn cynnwys asesiad sylfaenol manwl o allyriadau gweithredol blynyddol a dull amlinellol o gyflawni sero-net erbyn 2030. Mae'r Cynllun Gweithredu yn dangos tri cham clir o weithgarwch – Ymateb, Pontio a Gweithgarwch – a rhestr o gamau wedi'u trefnu gan feysydd gwasanaeth.

Ar lefel y Cabinet, mae cefnogaeth gadarn gan gynghorwyr i'r agenda hon ac mae proses adrodd a chraffu glir ar ei chyfer hefyd. Mae cyfrifoldeb y Cabinet yn rhan o bortffolio Priffyrdd, Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon. Mae arweinydd y Cabinet ar gyfer yr agenda hwn yn cadeirio'r grŵp trawsbleidiol Rheoli Carbon a Rheoli Hinsawdd. Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod bob deufis ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ac i'r Cyngor llawn.

Mae'r cyfrifoldeb am yr agenda ar lefel swyddog corfforaethol yn cael ei symud o'r lefel Swyddog Arweiniol Corfforaethol hyd at lefel Cyfarwyddwr a Phrif Weithredwr. Mae hyn yn adlewyrchu'r statws uwch y mae'r Cyngor yn ei roi i'r agenda hwn, a chydnabyddiaeth o'i natur drawsbynciol.

Fel rhan o'i Gynllun Gweithredu Sero Net, mae'r Cyngor yn adrodd yn flynyddol ar ei gynnydd. Mae'r adrodd hwn yn cynnwys diweddariad o ddata ar allyriadau ac adolygiad o wariant a gweithgarwch ar draws ystod o wasanaethau cyngor. Yr adroddiad ar gynnydd diwethaf a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus oedd ym mis Tachwedd 2021.

Mae Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor yn cynnwys nifer o dargedau a Dangosyddion Perfformiad Allweddol, y mae cynnydd yn cael ei adrodd yn unol â hwythau yn flynyddol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

Mae gan y Cyngor swyddogion sy'n wybodus ac sy’n ymgysylltu â'r agenda ac mae awydd corfforaethol cadarn i ddatblygu mwy o brosiectau a fydd yn lleihau allyriadau. Mae hyn yn cynnwys swydd Rheolwr Rhaglen Ynni a Lleihau Carbon, ond fel arall mae’r gallu yn fewnol i gydlynu a rheoli'r gwaith hwn yn gyfyng.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd ac allyriadau carbon, a bod ganddo ran i'w chwarae i leihau'r risg yma. Adlewyrchir hyn yn ei Gofrestr Risg Corfforaethol, lle mae'n cydnabod bod angen capasiti ac adnoddau ychwanegol i gyflawni yn erbyn ei dargedau sero net.

## Argymhellion

**Arddangos 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion a nodwyd gennym ar gyfer y Cyngor o ganlyniad i’r adolygiad hwn.

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Er mwyn bodloni ei uchelgais sero net, mae angen i'r Cyngor gostio ei gynllun gweithredu yn llawn a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig. |

Yn gywir,

**Archwilio Cymru**

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Briff y Prosiect – Pennu Amcanion Llesiant yng Nghyngor Sir Ceredigion

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3336A2023

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ceredigion fel rhan o waith a gyflawnir/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Briff  y prosiect | |
| Gwybodaeth Gefndir | 4 |
| Sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer yr archwiliad | 4 |
| Pwyslais yr archwiliad | 4 |
| Dull | 4 |
| Allbwn | 5 |
| Amserlen | 6 |
| Unigolion cyswllt Archwilio Cymru | 7 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – Archwilydd Cyffredinol Cymru – Hysbysiad Preifatrwydd | 8 |

# Briff y prosiect

## Gwybodaeth Gefndir

1 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae dyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol archwilio i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad ym mhob corff o leiaf unwaith yn ystod pob cyfnod adrodd o bum mlynedd. Y cyfnod adrodd presennol yw mis Mai 2020 i fis Mai 2025.

## Sylfaen ddeddfwriethol ar gyfer yr archwiliad

2 Cynhaliwyd y prosiect hwn er mwyn helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae copi o'n hysbysiad preifatrwydd wedi'i atodi yn **Atodiad 1**.

## Pwyslais yr archwiliad

3 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn i asesu i ba raddau y mae Cyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant.

4 Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar ddull y Cyngor o bennu ei amcanion llesiant newydd yn 2022-23.

5 Nod yr archwiliad yw helpu i wneud y canlynol:

- rhoi sicrwydd ynghylch y graddau y mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant; a
- nodi cyfleoedd i ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth bennu amcanion llesiant yn y dyfodol.

## Dull

6 Wrth gyflawni'r gwaith canlynol, rydym yn ceisio ateb y cwestiwn canlynol:

- I ba raddau y mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant newydd?

Wrth ystyried hyn, byddwn hefyd yn archwilio a yw'r Cyngor wedi dysgu ac yn parhau i ddysgu o'r ffordd y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant, ac i wella'r ffordd honno.

7 Rydym wedi trafod y dull ar gyfer yr archwiliad hwn â'r Cyngor. Er y byddwn yn defnyddio fframwaith asesu cyson ar draws cyrff cyhoeddus, bydd amseriad a'r ffordd rydym yn cyflawni'r gwaith hwn yn cael eu teilwra i adlewyrchu amgylchiadau yn y Cyngor.

8 Sefydlodd y Cyngor broses i bennu ei amcanion llesiant diwygiedig a ddechreuodd yng nghanol 2022 ac a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2022, gyda'i Strategaeth Gorfforaethol 2022-27 newydd, sy'n cynnwys ei amcanion llesiant diwygiedig. Felly, bydd ein gwaith yn ystyried y broses o bennu amcanion llesiant y Cyngor wrth edrych yn ôl.

9 Byddwn yn cynnal gweithdy myfyriol gydag aelodau allweddol o staff/darpar Aelodau'r Cyngor, ac yn adolygu dogfennau allweddol. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cynnal amrywiaeth o gyfweliadau, ac yn goruchwylio digwyddiadau a chyfarfodydd allweddol. Byddwn yn parhau i drafod a chadarnhau trefniadau penodol ar gyfer y gweithdy, y bobl yr hoffem gyfweld â nhw, y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr hoffem eu goruchwylio a'r dogfennau yr hoffem eu hadolygu gyda'r unigolyn cyswllt allweddol wrth i'r archwiliad fynd rhagddo.

10 Bydd ein dau sefydliad yn gweithio yn y ffyrdd canlynol er mwyn helpu i sicrhau bod y dull uchod yn effeithiol:

- byddwn yn ystyriol o'r goblygiadau o ran adnoddau ac amser y gallai'r archwiliad eu cael ar staff allweddol y Cyngor, o wybod y gofynion tebygol ar eu hamser wrth iddo fynd rhagddo;
- byddwn yn trefnu goruchwyliadau, cyfweliadau a gweithdai mewn ffordd hyblyg; a
- bydd y Cyngor yn rhannu gwybodaeth sy'n berthnasol i'n helpu i gynllunio a chyflawni'r archwiliad, yn ôl y galw.

11 Er y cynhelir yr archwiliad hwn dros 2022-23, ni fydd yn ddarn o waith helaeth sy'n galw am lawer o adnoddau. Dyma un elfen o'r gwaith a wneir hyd at 2025 a gaiff ei wneud i gyflawni dyletswyddau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan y Ddeddf.

# Allbwn

12 Pan fyddwn wedi cwblhau ein gwaith maes, byddwn yn cynnig cynnal gweithdy gyda'r Cyngor i rannu a thrafod ein canfyddiadau cyffredinol.

13 Yn dilyn hyn, byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau drwy allbwn ysgrifenedig. Bydd fersiwn derfynol yr allbwn hwnnw yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan.

# Amserlen

**Arddangosyn 1: amserlen yr archwiliad**

Mae'r tabl isod yn nodi camau allweddol yr archwiliad yn y Cyngor ynghyd â'r amserlen ddangosol.

| Cam | Amser |
|---|---|
| **Gwaith maes** | **Ionawr 2023 – Mawrth 2023** |
| Cyfnod 1a: Adolygu'r ddogfen (gan gynnwys y datganiad llesiant a'r amcanion llesiant diwygiedig)<br>Cyfnod 1b: Gweithdy myfyriol rhithwir gyda staff allweddol y Cyngor | Ionawr 2023 – Chwefror 2023<br>Chwefror 2023 |
| Cyfnod 2: Os bydd angen, cyfweliadau terfynol a goruchwyliadau posibl. | Chwefror 2023 |
| Cyfnod 3: Gweithdy adborth posibl (i'w drafod â'r Cyngor) | Mawrth 2023 |
| **Adrodd**<br>Cyfnod 4: llythyr neu adroddiad ddrafft. | Ebrill/Mai 2023 |

# Unigolion cyswllt Archwilio Cymru

**Arddangosyn 2: Unigolion cyswllt Archwilio Cymru**

Mae'r tabl isod yn nodi unigolyn cyswllt allweddol Archwilio Cymru ar gyfer yr archwiliad hwn. Gallai aelodau eraill o'r tîm gefnogi elfennau o'r archwiliad hefyd.

| Enw | Manylion cyswllt |
|---|---|
| Non Jenkins – Rheolwr Archwilio | non.jenkins@archwilio.cymru |
| Nigel Griffiths – Arweinydd Archwiliad Perfformiad | nigel.griffiths@archwilio.cymru |
| Gareth Lewis – Uwch-archwilydd | Gareth.Lewis2.@archwilio.cymru |
| Jeff Brown – Uwch-archwilydd | jeff.brown@archwilio.cymru |

# Atodiad 1

## Archwilydd Cyffredinol Cymru – Hysbysiad Preifatrwydd

**Dyddiad cyhoeddi:** Awst 2021

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych sut mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn prosesu gwybodaeth bersonol a gesglir mewn cysylltiad â'r gwaith a wnawn.

### Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Mae gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnwys archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu'r staff a'r adnoddau i'w alluogi i gyflawni ei waith. Mae 'Archwilio Cymru' yn nod masnach ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn hunaniaeth ymbarél ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

### Swyddog Diogelu Data

Gellir cysylltu â'n Swyddog Diogelu Data dros y ffôn ar 029 2032 0500 neu drwy e-bost yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

### Y cyfreithiau perthnasol

Rydym yn prosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu (GDPR). Ein seiliau cyfreithlon ar gyfer prosesu yw'r pwerau a'r dyletswyddau a nodir yn Neddfau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013, Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn dibynnu ar y pŵer neu'r swyddogaeth benodol, mae'r seiliau statudol hyn yn dod o dan Erthygl 6(c) ac (e) o GDPR y DU—prosesu sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol.

### Pwy fydd yn gweld y data?

Bydd gan yr Archwilydd Cyffredinol a staff perthnasol Swyddfa Archwilio Cymru, megis y tîm astudio, fynediad at y wybodaeth a ddarperir gennych. Efallai y bydd ein hadroddiad cyhoeddedig yn cynnwys rhywfaint o'ch gwybodaeth, ond byddwn yn cysylltu â chi cyn i unrhyw wybodaeth a gaiff ei chyhoeddi nodi pwy ydych—gweler hefyd 'eich hawliau' isod. Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â'r canlynol:

**a)** uwch-reolwyr yn y corff/cyrff archwiliedig cyhyd â bod angen ar gyfer arfer ein pwerau a'n dyletswyddau; a

**b)** rheoleiddwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, megis Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Arolygiaeth Gofal Cymru (Gweinidogion Cymru), Estyn ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, lle mae'r gyfraith yn caniatáu hyn, megis o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw'r data

Yn gyffredinol, byddwn yn cadw eich data am chwe blynedd, er y gallai hyn gynyddu i 25 mlynedd os yw'n cefnogi adroddiad cyhoeddedig-byddwn yn cysylltu â chi cyn cyhoeddi unrhyw wybodaeth sy'n nodi pwy ydych-gweler hefyd "eich hawliau" isod. Ar ôl 25 mlynedd, mae'r cofnodion naill ai'n cael eu trosglwyddo i Archif Genedlaethol y DU neu'n cael eu dinistrio'n ddiogel. Yn ymarferol, ychydig iawn o wybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw y tu hwnt i chwe blynedd.

## Ein hawliau

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hawliau i gael gwybodaeth, esboniad a chymorth o dan baragraff 17 o atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 52 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, adran 26 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac adran 98 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gallai fod yn drosedd ddirwyadwy i berson fethu â darparu gwybodaeth.

## Eich hawliau

Mae gennych hawliau i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol gyfredol a gedwir amdanoch ac i wrthwynebu prosesu data sy'n achosi difrod a gofid diwarant a sylweddol. I gael copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch neu i drafod unrhyw wrthwynebiadau neu bryderon, ysgrifennwch at y Swyddog Diogelu Data, Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, neu e-bostiwch swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru. Gallwch hefyd gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data yn y cyfeiriad hwn.

## Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Os ydych am gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau o dan gyfraith diogelu data neu os hoffech gwyno am sut rydym yn ymdrin â'ch data personol, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF, neu drwy e-bost yn casework@ico.gsi.gov.uk neu dros y ffôn 01625 545745.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

# Cwestiynau allweddol a'r hyn rydyn ni'n chwilio amdano – Gosod amcanion llesiant

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr ydym yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â rhai is-gwestiynau a fydd yn helpu i lywio ein casglu tystiolaeth. Mae hefyd yn cynnwys rhai dangosyddion cadarnhaol sydd wedi'u teilwra i'r arholiad hwn, wedi'u haddasu o'r rhai yr ydym wedi'u defnyddio o'r blaen i lywio ein harholiadau egwyddor datblygu cynaliadwy. Nid yw'r rhestr hon wedi'i chynllunio i gael ei defnyddio rhestr wirio, ond yn hytrach set ddarluniadol o nodweddion sy'n disgrifio sut allai da edrych.

<table>
<tr><td colspan="2">I ba raddau mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd?</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cynllunio – A gafodd y broses a roddwyd y corff ar waith i osod ei hamcanion llesiant yn sail i'r egwyddor datblygu cynaliadwy?</td></tr>
<tr><td>1.1 Ydy'r corff wedi defnyddio a deallusrwydd arall i ddeall risgiau a chyfleoedd a sut y gallen nhw newid dros amser?</td><td>Dangosyddion cadarnhaol<br><ul><li>Mae gan y corff asesiad clir a chytbwys o gynnydd yn erbyn amcanion llesiant blaenorol sydd wedi'u defnyddio i lywio dealltwriaeth y corff o'r 'fel y mae'/ angen tymor byr.</li><li>Mae'r corff wedi gosod amcanion llesiant ar sail dealltwriaeth dda o angen, risg a chyfleoedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau'r dyfodol. Mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei dynnu o ystod o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis:<ul><li>Asesiadau llesiant darlledu gwasanaeth cyhoeddus</li><li>Asesiadau poblogaeth RPB</li><li>Canlyniadau ymarferion ymglymiad / ymgynghori'n lleol</li><li>Monitro gwasanaethau a chwynion</li><li>Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol</li><li>SoNARR</li><li>Asesiadau ar sail ardal CNC</li></ul></li></ul>Mae'r corff wedi ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel y gall fynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau pontio'r cenedlaethau drwy ei amcanion llesiant.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **1.2 Ydy'r corff wedi cynnwys eraill wrth ddatblygu ei amcanion llesiant?** | • Mae'r corff yn defnyddio canlyniadau ymwneud er mwyn helpu i ddewis ei amcanion llesiant. Mae'r ymwneud hwnnw - boed yn gynradd, eilaidd neu'n gyfuniad – yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth.<br>• Mae ymwneud yn adlewyrchu arferion a chyngor da gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| **1.3 Ydy'r corff wedi ystyried sut gall yr amcanion wella llesiant a chael effaith eang?** | • Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i wella lles yn yr ystyr ehangaf a gwneud cyfraniad ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol.<br>• Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i adlewyrchu a manteisio ar y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwaith.<br>• Mae dealltwriaeth ddatblygedig iawn o sut mae'r amcanion llesiant yn effeithio ar/ ymwneud â'r hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio'i gyflawni a chyfleoedd i gydweithio. |
| **1.4 Ydy'r corff wedi cynllunio'r amcanion i sicrhau manteision tymor hwy, wedi'u cydbwyso â diwallu anghenion tymor byr?** | • Mae'r corff wedi gosod amcanion sy'n ddigon uchelgeisiol ac yn ceisio ymateb i'r heriau tymor byr a hirdymor sy'n bodoli. Eu bwriad oedd gyrru gweithgarwch ar draws y sefydliad.<br>• Nod yr amcanion yw diwallu angen tymor byr a thymor hwy. Lle mae amcanion wedi'u gosod dros amserlen fer i ganolig, maent wedi'u gosod yng nghyd-destun ystyriaethau neu uchelgeisiau tymor hwy. |
| **2. Darparu adnoddau a chyflwyno - A yw'r corff wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?** | |
| **2.1 Ydy'r corff wedi ystyried sut mae'n gallu rhoi adnoddau i'r amcanion llesiant?** | • Dyrannwyd adnoddau i sicrhau bod modd cyflwyno'r amcanion dros y tymor byr a chanolig, ond roedd y bod yr has hefyd yn ystyried risgiau adnoddau tymor hwy a/neu sut y gall adnoddau amcanion tymor hwy.<br>• Mae'r corff wedi dyrannu adnoddau i ddarparu buddion ataliol, lle disgrifir y rhain yn ei amcanion llesiant. |
| **2.2 Ydy'r corff wedi ystyried sut gall weithio gydag eraill i wireddu eu hamcanion?** | • Mae'r corff yn tynnu ar ei wybodaeth am amcanion/ gweithgarwch partneriaid, ei berthynas a'i drefniadau cydweithredol i wneud yn siŵr y gall gyflawni uchelgeisiau trawsbynciol. |
| **3. Monitro ac adolygu: A yw'r corff wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro cynnydd a gwella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant?** | |
| **3.1 Ydy'r corff wedi datblygu mesurau priodol a threfniadau monitro?** | • Dyluniwyd mesurau perfformiad i adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, e.e. drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau sy'n torri ar draws ffiniau adrannol/ sefydliadol a darparu buddion lluosog (gan gynnwys ataliol) dros y tymor hwy.<br>• Mae 'llinyn euraidd' a fydd yn caniatáu i'r corff adrodd yn glir ac yn dryloyw ar y cynnydd i gyflawni'r amcanion. |
| **3.2 A yw'r corff yn ceisio dysgu o a gwella sut mae wedi cymhwyso'r** | • Mae'r corff yn dangos hunan ymwybyddiaeth ac ymrwymiad i wella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y gall wneud hynny mewn ffordd ystyrlon ac effaithus. |

| | |
|---|---|
| **egwyddor datblygu cynaliadwy i osod ei amcanion llesiant?** | • Mae'r corff wedi dysgu o osod amcanion llesiant blaenorol ac o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn fwy cyffredinol ac wedi gwella'r broses o osod ei hamcanion llesiant newydd.<br>• Mae gan y corff – neu maent ar y gweill – gynlluniau i fyfyrio ar sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y rownd hon o osod amcanion llesiant. |